Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Plas Carew, Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ
Ffôn 0300 256000 Ffacs 03000 256001
E-bost cadw@cymru.gsi.gov.uk
Gwefan www.cadw.cymru.gov.uk

Plas Carew, Unit 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw, Cardiff CF15 7QQ
Tel 03000 256000 Fax 03000 256001
Email cadw@wales.gsi.gov.uk
Web www.cadw.wales.gov.uk

26 Mai 2017

At: Penaethiaid Cynllunio

Annwyl Gydweithiwr

**Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**

Mae'r llythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran rhoi Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016) a newidiadau i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth 1990 (“Deddf 1990”) ar waith. Yn benodol, hoffem dynnu eich sylw at gychwyn darpariaethau a nodir yn Neddf 2016, Rheoliadau newydd, newidiadau i gyfarwyddiadau ynglŷn ag agweddau ar weithdrefnau cydsyniad adeilad rhestredig ac ardaloedd cadwraeth, a chanllawiau ategol newydd fel y'u nodir yn yr atodiadau i'r llythyr hwn. Nodir y pwyntiau allweddol sy'n effeithio ar eich buddiannau isod.

<u>Gwaith brys i ddiogelu adeiladau rhestredig ac adennill costau (adrannau 54 a 55 o Ddeddf 1990): ymestyn y cwmpas ac adennill costau</u>

Caiff y pwerau i wneud gwaith brys er mwyn diogelu adeiladau rhestredig eu hymestyn gan Ddeddf 2016. Mae Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) 2017 yn cychwyn adran 30(6) o Ddeddf 2016 sy'n darparu ar gyfer gosod pridiant tir lleol er mwyn helpu i adennill costau gan y perchennog yn dilyn gwaith brys. Mae'r adran hefyd yn darparu ar gyfer codi llog ar y costau nes iddynt gael eu hadennill. Pennir y gyfradd llog gan Orchymyn Adeiladau Rhestredig (Gwaith Brys) (Cyfradd Llog ar Dreuliau) 2017. Pennir y gyfradd ar 2% y flwyddyn yn uwch na chyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Daw'r darpariaethau hyn i rym ar 31 Mai 2017.

<u>Cofnodion amgylchedd hanesyddol (adrannau 35-37 o Ddeddf 2016)</u>

Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol a'i gadw'n gyfredol. At hynny, gosododd Deddf 2016 ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol, gan gynnwys awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol i roi sylw i ganllawiau statudol ar lunio a defnyddio cofnodion amgylchedd hanesyddol. Bydd Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) 2017 yn cychwyn y darpariaethau hyn ar 31 Mai 2017. Cyhoeddwyd y canllawiau statudol ym mis Ebrill ac anfonwyd llythyr ar wahân a oedd yn darparu rhagor o wybodaeth i'r awdurdod lleol.

Ymgynghori statudol, gwarchodaeth interim ac adolygiadau o benderfyniadau i restru adeilad neu gofrestru heneb (adran 1AA – 1AE o Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 ac adran 2A-2D o Ddeddf 1990).

Mae Deddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori ynghylch cynigion i restru adeilad neu gofrestru heneb, mae'n darparu ar gyfer rhoi gwarchodaeth interim i ased nes i benderfyniad gael ei wneud ar y cynnig ac mae hefyd yn rhoi hawl i berchennog neu feddiannydd ofyn am adolygiad o benderfyniad gan un o Weinidogion Cymru i restru adeilad neu gofrestru heneb. Bydd Gorchymyn Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 (Cychwyn Rhif 1 a Darpariaethau Trosiannol) 2017 yn cychwyn y darpariaethau hyn ar 31 Mai 2017. Mae rheoliadau sy'n nodi'r gweithdrefnau ar gyfer adolygiadau a'r rhesymau dros eu cynnal hefyd wedi'u gwneud a dônt i rym ar 31 Mai (Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Adolygu Penderfyniadau Cofrestru) (Cymru) a Rheoliadau Adeiladau Rhestredig (Adolygu Penderfyniadau Rhestru) (Cymru) 2017).

Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol fod yn ymwybodol, yn ystod cyfnod o warchodaeth interim, y caiff adeilad a gynigiwyd i'w restru ei warchod fel petai wedi'i restru eisoes. Felly, efallai y bydd angen cael cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith, a bydd gwaith nas awdurdodwyd yn gyfystyr â throsedd yn ogystal â bod yn destun camau gorfodi. Caiff awdurdodau cynllunio lleol eu hysbysu am y cynnig i gynnwys adeilad ar y rhestr ar yr un pryd ag yr ymgynghorir â'r perchennog / meddiannydd ac mae gwarchodaeth interim yn gymwys.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu bod yr awdurdod lleol yn berson â diddordeb yn yr adolygiad o benderfyniad rhestru neu benderfyniad cofrestru, gan roi cyfle i chi gyflwyno sylwadau. Mae'r gweithdrefnau wedi'u seilio'n agos ar y trefniadau ar gyfer apeliadau cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig a chânt eu cynnal gan yr Arolygiaeth Gynllunio.

Datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth

Mae Rheoliadau (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017 yn diwygio Rheoliadau 2012 gan ddileu'r gofyniad i gais am gydsyniad adeilad rhestredig gael ei ategu gan ddatganiad dylunio a mynediad a rhoi gofyniad i gais am gydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth gael ei ategu gan ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth yn ei le. Daw'r gofyniad hwn i rym ar 1 Medi 2017.

Ymgynghorwyd ar y canllawiau drafft ar gyfer Asesu'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru y llynedd a chyhoeddir y canllawiau terfynol ar 31 Mai 2017. Yn ystod y cyfnod cyn cychwyn y gofyniad byddwn yn parhau i roi cymorth i awdurdodau lleol mewn perthynas â'r gofynion newydd drwy fforymau megis y Fforwm Treftadaeth Adeiledig. Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth i hysbysu perchenogion / meddianwyr / asiantau ac eraill sy'n cyflwyno ceisiadau am gydsyniad am y gofynion newydd.

Newidiadau i Restr Wirio Caniatâd Adeilad Rhestredig

Mae rhestr wirio caniatâd adeilad rhestredig newydd ar gyfer ceisiadau a wneir i Weinidogion Cymru yn cael ei ddatblygu a bydd gwybodaeth bellach yn cael ei ddanfon ar wahân.

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

Er mwyn ategu'r darpariaethau yn Neddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a Pholisi Cynllunio Cymru Pennod 6: Yr Amgylchedd Hanesyddol, cyhoeddir fersiwn newydd o Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol ar 31 Mai 2017. Mae'n darparu rhagor o wybodaeth a chanllawiau cynllunio manwl er mwyn adlewyrchu'n llawn sut y dylai'r amgylchedd hanesyddol gael ei ystyried drwy'r broses gynllunio.

Mae'n disodli Cylchlythyrau 60/96 y Swyddfa Gymreig, Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg, 61/96 Cynllunio a’r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth ac 1/98 Cynllunio a’r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Cyfarwyddiadau

Er mwyn dileu Cylchlythyr 1/98 y Swyddfa Gymreig: Cynllunio a’r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddiadau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a rhoi TAN 24 yn ei le bu'n rhaid gwneud tri chyfarwyddyd newydd a ddaw i rym ar 31 Mai 2017. Atodir y tri chyfarwyddyd yn Atodiad A ac, fel y byddwch yn nodi, nid ydynt yn newid effaith y cyfarwyddiadau y maent yn eu disodli.

Canllawiau

Cyhoeddir cyfres o ganllawiau pellach i ategu Deddf 2016 ar 31 Mai hefyd ac fe'u crynhoir yn Atodiad B. Bydd y canllawiau ar gael ar wefan Cadw http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy

Bydd Cadw yn gweithio gyda'r Fforwm Treftadaeth Adeiledig ac Awdurdodau Cynllunio Lleol er mwyn nodi anghenion hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r polisi newydd hwn a'r canllawiau newydd hyn.

Yn gywir

Gwilym Hughes
Cyfarwyddwr Cynorthwyol yr Amgylchedd Hanesyddol
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw),
Adran yr Economi, Sgiliau a
Chyfoeth Naturiol

Neil Hemington
Prif Gynlluniwr
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Adran yr Economi, Sgiliau a
Chyfoeth Naturiol

# Atodiad A

## CYFARWYDDYD CEISIADAU CYDSYNIAD ADEILAD RHESTREDIG (DATGYMHWYSO DYLETSWYDD I HYSBYSU GWEINIDOGION CYMRU) (CYMRU) 2017

Mae Gweinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 15(1) a (6) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990[1] ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy[2] yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

**Cychwyn a chymhwyso**

1. Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 31 Mai 2017 ac mae'n gymwys i geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a wneir i awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â thir yng Nghymru.

**Dehongli**

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn-

ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990;

ystyr "Cylchlythyr 1/98" yw Cylchlythyr 1/98 y Swyddfa Gymreig: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddydau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**Datgymhwyso dyletswydd i hysbysu Gweinidogion Cymru am fwriad i roi cydsyniad adeilad rhestredig**

3. Nid yw adran 13 o'r Ddeddf yn gymwys yn achos cais am gydsyniad adeilad rhestredig i wneud gwaith nad yw ond yn effeithio ar du mewn adeilad rhestredig Gradd II (dim sêr).

4. Nid yw paragraff 3 yn datgymhwyso adran 13 os yw'r gwaith yn cynnwys gwaith dymchwel.

**Dirymu**

5. Mae'r Cyfarwyddyd ym mharagraff 14 o Gylchlythyr 1/98 y Swyddfa Gymreig wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

2/5/17

[1] 1990 p.9

[2] Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 15(1)a (6), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

**CYFARWYDDYD CEISIADAU A PHENDERFYNIADAU ADEILAD RHESTREDIG (DYLETSWYDD I HYSBYSU CYMDEITHASAU AMWYNDER CENEDLAETHOL A'R COMISIWN BRENHINOL) (CYMRU) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 15(5) a (6) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990[1] ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy[2] yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

**Cychwyn a chymhwyso**

1. Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 31 Mai 2017 ac mae'n gymwys i geisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig a wneir i awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas â thir yng Nghymru.

**Dehongli**

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn

   ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

   ystyr "Cylchlythyr 1/98" yw Cylchlythyr 1/98 y Swyddfa Gymreig: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddydau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**Hysbysu Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol**

3. Bydd hysbysiadau am gydsyniad adeilad rhestredig ac am y penderfyniadau a wneir gan awdurdodau cynllunio lleol ar y ceisiadau hynny yn cael eu rhoi i'r Gymdeithas Henebion, y Cyngor Archaeoleg Brydeinig, y Grŵp Sioraidd, y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol, y Gymdeithas Fictoraidd a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn yr achosion a ganlyn

   (a) ar gyfer gwaith i ddymchwel adeilad rhestredig; neu

   (b) ar gyfer gwaith i newid adeilad rhestredig sy'n golygu neu sy'n cynnwys dymchwel unrhyw ran o'r adeilad hwnnw.

**Dirymu**

4. Mae'r Cyfarwyddyd ym mharagraff 10 o Gylchlythyr 1/98 wedi ei ddirymu.

---

[1] 1990 p.9

[2] Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 15(1) a (6), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 6 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Llofnodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad 2/5/17

**CYFARWYDDYD ARDALOEDD CADWRAETH (DATGYMHWYSO GOFYNIAD I GAEL CYDSYNIAD ARDAL GADWRAETH ER MWYN DYMCHWEL) (CYMRU) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wrth arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 75(2), (3) a (4) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990[1] ac ac sydd bellach yn ymarferadwy ganddynt hwy[2] yn rhoi'r Cyfarwyddyd a ganlyn.

**Cychwyn**

1. Daw'r Cyfarwyddyd hwn i rym ar 31 Mai 2017.

**Dehongli**

2. Yn y Cyfarwyddyd hwn

ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

ystyr "Cylchlythyr 1/98" yw Cylchlythyr 1/98 y Swyddfa Gymreig: Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Cyfarwyddydau gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**Datgymhwyso gofyniad i gael cydsyniad ardal gadwraeth**

3. Nid yw adran 74 o'r Ddeddf yn gymwys i adeiladau o'r disgrifiad a ganlyn

(a) adeilad â chyfanswm cynnwys ciwbig nad yw'n fwy na 115 o fetrau ciwbig (y penderfynir arno gan fesuriadau allanol) neu unrhyw ran o adeilad o'r fath, ac eithrio carreg fedd o gyfnod cyn 1925;

(b) gât, wal, ffens neu ddull amgáu sy'n llai nag un metr o uchder pan fo'n ffinio â phriffordd (gan gynnwys llwybr troed neu lwybr ceffylau cyhoeddus), dyfrffordd neu fan agored, neu sy'n llai na dau fetr o uchder mewn unrhyw achos arall;

(c) adeilad a godwyd ers 1 Ionawr 1914 ac sy'n cael ei ddefnyddio, neu a ddefnyddiwyd ddiwethaf, at ddibenion amaethyddiaeth neu goedwigaeth;

(d) adeilad y mae'n ofynnol iddo gael ei ddymchwel yn rhinwedd gorchymyn a wnaed o dan adran 102 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

(e) adeilad y mae'n ofynnol iddo gael ei ddymchwel yn rhinwedd unrhyw ddarpariaeth mewn cytundeb a wnaed o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

---

[1] 1990 p.9

[2] Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 75(2) i (4), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 O.S. 1999/672. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru wedi hynny yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(f) adeilad y mae, mewn cysylltiad ag ef, ddarpariaethau hysbysiad gorfodi a ddyroddir o dan adran 172 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu adrannau 38 neu 46 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn ei gwneud yn ofynnol iddo gael ei ddymchwel, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, pa fodd bynnag y'i mynegir;

(g) unrhyw adeilad y mae'n ofynnol iddo gael ei ddymchwel yn rhinwedd amod caniatâd cynllunio a roddir o dan adrannau 70 neu 177(1) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

(h) adeilad y mae'n ofynnol iddo gael ei ddymchwel yn rhinwedd hysbysiad a gyflwynir o dan adran 215 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990;

(i) adeilad sydd wedi ei gynnwys mewn gorchymyn clirio gweithredol neu orchymyn prynu gorfodol a wneir o dan ran IX o Ddeddf Tai 1985 neu y mae gorchymyn dymchwel a wneir o dan ran II o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;

(j) adeilad a brynwyd gan awdurdod lleol drwy gytundeb lle y mae rhan IX o Ddeddf Tai 1985 yn gymwys i'r adeilad hwnnw;

(k) adeilad afraid (o fewn ystyr Mesur Cenhadaeth a Bugeiliol 2011) neu ran o adeilad o'r fath pan fydd yn cael ei ddymchwel yn unol â chynllun bugeiliol neu afreidrwydd (o fewn ystyr y Mesur hwnnw).

**Dirymu**

**4.** Mae'r Cyfarwyddyd ym mharagraff 20 o Gylchlythyr 1/98 wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

2/5/17

**Atodiad B: Crynodebau o'r canllawiau statudol ac arfer gorau**

Mae ***Rheoli Newid ar Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*** yn pennu yr egwyddorion cyffredinol i ddeall a rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, gan gynnwys sut y cânt eu diogelu drwy'r system gynllunio.

Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu'n bennaf at y rhai hynny sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys awdurdodau lleol, ymgymerwyr statudol a darpar ddatblygwyr, i godi proffil Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru a helpu iddynt reoli newid heb gael effaith negyddol ar eu Gwerth Cyffredinol Eithriadol. Gall Rheolwyr a rhanddeiliaid Safleoedd Treftadaeth y Byd ei weld yn ddefnyddiol hefyd i lywio cynlluniau rheoli, ochr yn ochr â *Operational Guidelines for the Implementation of the World Heritage Convention* UNESCO.

Mae ***Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*** yn pennu yr egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth wneud newidiadau i adeiladau rhestredig ac mae'n egluro sut i wneud cais am ganiatâd adeilad rhestredig, gan gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau perchnogion, awdurdodau cynllunio lleol a Gwasanaeth yr Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw).

Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi ei anelu'n bennaf at berchnogion adeiladau r hestredig ac asiantaethau sy'n gweithredu ar eu rhan i helpu iddynt ddeall goblygiadau bod yn berchennog ar adeilad rhestredig a gwneud newidiadau iddo.

Mae ***Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*** yn pennu y cyd-destun polisi ar gyfer dynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth a dyletswyddau awdurdodau cynllunio lleol. Mae hefyd yn nodi prif agweddau arfer gorau am eu dynodiad a'u gwerthusiad, gan gynnwys cyfraniad rhanddeiliaid a datblygu polisïau lleol ar gyfer rheoli positif a gwelliant fel bod eu cymeriad a'u hymddangosiad yn cael eu cadw a'u gwella.

Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu'n bennaf at awdurdodau cynllunio lleol i sicrhau dull cyson o ddynodi ardaloedd cadwraeth, arfarnu a rheoli ledled Cymru.

Mae ***Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*** yn pennu yr egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth gynllunio newidiadau i asedau hanesyddol a gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig ac ardal gadwraeth.

Mae'r canllaw arfer gorau hwn ar gyfer perchenogion a phreswylwyr asedau hanesyddol a'u hasiantwyr yn bennaf. Bydd yn helpu iddynt ddeall pam, pryd a sut i ddefnyddio proses yr asesiad o'r effaith ar dreftadaeth ac i baratoi datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth.

Mae ***Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*** yn pennu yr egwyddorion cyffredinol a'r arferion da ar gyfer paratoi a rheoli rhestrau o asedau hanesyddol lleol - gan gynnwys meini prawf, enwebu, ymgynghori, dilysu, apeliadau a monitro - ac mae'n rhoi canllawiau ar gyfer eu defnyddio yn y system gynllunio.

Mae'r canllawiau hyn wedi eu hanelu'n bennaf at awdurdodau cynllunio lleol, ond hefyd sefydliadau'r trydydd sector a pherchnogion asedau hanesyddol, i annog pob sector i gydweithio i ddiogelu a gwella asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig.

Mae ***Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru*** yn rhoi amlinelliad o'r berthynas hollbwysig sydd rhwng defnydd, perchnogaeth a chyflwr adeilad, a sut y gellir rheoli'r cydbwysedd gofalus rhwng yr elfennau hyn i sicrhau dyfodol cynaliadwy. Mae'n rhoi amlinelliad o swyddogaethau a chyfrifoldebau perchnogion, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Mae'n dangos sut y gall polisïau a rhaglenni i reoli adeiladau rhestredig sydd mewn perygl fod yn llwyddiannus, ond mae hefyd yn egluro'r pwerau statudol y gellir eu defnyddio i ddiogelu adeiladau rhestredig sydd mewn perygl ble y bo hynny'n briodol.

Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu'n bennaf at adrannau cadwraeth awdurdodau lleol, cynllunio, tai, adfywio a datblygu. Gallai hefyd fod o ddiddordeb i berchnogion, preswylwyr ac asiantwyr, yn ogystal â chymunedau lleol a sefydliadau'r trydydd sector sydd â'r swyddogaeth hollbwysig o ofalu am adeiladau rhestredig sydd mewn perygl.

Mae ***Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*** yn egluro beth yw lleoliad, a sut y mae'n cyfrannu at bwysigrwydd ased hanesyddol a pham bod hyn yn bwysig. Mae'n rhoi amlinelliad o'r egwyddorion sy'n cael eu defnyddio i asesu effaith bosibl datblygiad neu gynigion i reoli tir o fewn lleoliadau Safleoedd Treftadaeth y Byd, henebion (rhestredig a heb eu rhestru), adeiladau rhestredig, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth.

Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu at ddatblygwyr, perchnogion ac asiantwyr, a ddylai ei ddefnyddio i lywio cynlluniau rheoli a chynigion ar gyfer newid a allai gael effaith ar bwysigrwydd ased hanesyddol a'i leoliad.

Mae ***Rheoli Newid i Barciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru*** yn pennu egwyddorion cyffredinol i'w dilyn pan yn ystyried newidiadau a allai gael effaith ar barciau a gerddi hanesyddol cofrestredig. Mae'n egluor statws parciau a gerddi Hanesyddol Cofrestredig yng Nghymru a'u lle o fewn y system gynllunio, gan gynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau perchnogion, awdurdodau cynllunio lleol, cymdeithasau amwynderau a Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw). Er bod y gofrestr yn un statudol, nid yw'r gofrestr yn cyflwyno unrhyw drefn gydsynio newydd.

Mae'r canllaw arfer gorau hwn wedi'i anelu'n bennaf at berchnogion parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig, ac asiantwyr sy'n gweithredu ar eu rhan, i

helpu iddynt ddeall goblygiadau bod yn berchennog parc neu ardd hanesyddol gofrestredig a rheoli'r newidiadau sy'n cael effaith arno.

Mae ***Rheoli Nodweddion Hanesyddol yng Nghymru*** yn egluro pam ei fod yn bwysig i gydnabod nodweddion hanesyddol a'i ddefnyddio fel sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwaith cadwraeth, adfywio a chynllunio. Mae'n dangos sut y gall bolisïau a rhaglenni i reoli newid gael ysbrydoliaeth o'r gorffennol i helpu i greu a chynnal lleoliadau unigryw at y dyfodol. Mae *Rheoli Nodwedidon Hanesyddol yng Nghymru,* yn ogystal â *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru,* yn canolbwyntio ar yr agweddau hynny o dreftadaeth leol sydd â gwerth sylweddol i gymunedau lleol, gan gynnwys y rhai hynny sydd heb eu dynodi oherwydd eu diddordeb neu eu pwysigrwydd cenedlaethol arbennig.

Mae canllawiau arfer gorau wed'i anelu'n bennaf at gadwraeth o fewn awdurdodau lleol, adrannau cynllunio, tai, adfywio a datblygu, yn ogystal ag adrannau Llywodraeth Cymru. Bydd hefyd o ddiddordeb i gymunedau lleol a sefydliadau'r trydydd sector, yn ogystal â pherchnogion, datblygwyr ac asiantwyr, sydd â swyddogaeth hollbwysig wrth adnabod, hyrwyddo a gofalu am nodweddion hanesyddol lleol.